# CANLLAWIAU GOLYGU

## Beth yw golygu?

Golygu yw’r broses o ddileu gwybodaeth trydydd parti o ddogfen a allai arwain at adnabod unigolyn.
Defnyddir golygu hefyd i ddileu unrhyw wybodaeth a allai achosi niwed emosiynol gormodol i unigolyn.

## Adnabod deunydd i’w olygu

Dylai pob aelod staff fod yn ymwybodol o’r categorïau gwybodaeth **na ddylid** eu rhyddhau dan y Ddeddf Diogelu Data.

Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys gwybodaeth adnabod anuniongyrchol
-Trydydd partïon a enwir neu na enwir (e.e. mam, George, brawd, chwaer, teulu, ffrindiau, cymdogion ac unrhyw wybodaeth adnabod arall am bobl o’r fath, megis ‘mam-gu ochr y fam’, neu ‘ffrind gyda fitiligo’)
-Rhagenwau rhywedd trydydd partïon (mae Jason yn chwarae gyda Bruce ond mae’n rhaid IDDO FE fynd yn gynnar)
-Barn bersonol wrthrychol (mae Alfred yn meddwl bod Bruce yn ymddwyn mewn ffordd i ddenu sylw)
-Unrhyw beth a all achosi niwed emosiynol gormodol. Mae enghreifftiau yn cynnwys honiadau di-sail megis cyswllt rhywiol, neu sarhad maleisus rhwng partïon.
-Lluniau a ffotograffau.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ddeunydd wedi eithrio ar wefan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Sut i olygu

### DOGFENNAU PDF

Byddem yn argymell golygu yn electronig bob tro yn hytrach na golygu copïau papur gan ei fod yn ddiogelach. Dylid fformatio’r copïau a olygir mewn fersiwn PDF bob amser fel na ellir gwrthdroi newidiadau.

# CANLLAWIAU GOLYGU

Mae offer meddalwedd y gellir ei brynu megis foxit phantom - drwy adran TGCh Cyngor Caerdydd sy'n galluogi golygu'n electronig. Gellir gwneud hyn ar eich cyfrifiadur drwy osod a llenwi blychau dros y testun a eithrir.
Byddai angen arbed dau gopi, un wedi ei olygu ac un heb ei olygu.

Wrtho olygu'n electronig, dylid cadw cofnod penderfyniadau yn yr un ffordd â fformatau papur.
Dylid nodi'r isod fel lleiafswm:

- Pwy sydd wedi cyflawni'r gwaith golygu?
- Beth sydd wedi'i olygu?
- Pryd y gwnaed hyn?
- Pam y gwnaed hyn? Dylid dyfynnu'r eithriadau sy'n berthnasol i bob achos.

## Copïau papur

Mae hyn yn cynnwys llungopïo'r ddogfen wreiddiol - dylai'r llungopïau fod ar un ochr y papur, gan y bydd pin ffelt du yn dangos ar ochr arall dogfen dwy ochr, a dylid defnyddio pin ffelt du i orchuddio'r deunydd sensitif.

Dylid llungopïo'r fersiwn wedi'i golygu (gall tywyllu'r dwysedd ychydig fod o help) eto i greu fersiwn arall.

Mae'r llungopi pellach yn angenrheidiol gan fod modd darllen y wybodaeth a olygir gan ben marcio pan gaiff ei dal o flaen golau.

Ni ddylid dileu brawddeg neu baragraff cyfan os mai dim ond un neu ddau o eiriau na ddylid eu datgelu sydd ynddynt. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i ddiogelu gwybodaeth bersonol rhywun yn dirymu'r ddyletswydd i roi ei wybodaeth ei hun i rywun. Defnyddiwch eich barn orau i werthuso a yw'r frawddeg yn gwbl ddiystyr ac a ddylid ei dileu neu ei gadael gyda dryswch posibl.

Mae bob amser yn well gorwneud yn hytrach na thanweithredu.

O ran cyflogeion – byddem yn argymell nad ydych yn rhyddhau enwau swyddogion a manylion cyswllt sydd ar raddfa dan Lefel Pennaeth. Mae angen golygu'r rhain o bob llwybr

e-bost, llythyr/dogfen ac ati. Er ein bod yn gwerthfawrogi y bydd rhieni a phlant yn gwybod enwau athrawon a staff sy'n gweithio mewn ysgolion, mae'n hanfodol bod disgwyliadau preifatrwydd unigolion yn cael eu bodloni bob amser.